

# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER  
14 Medi 2022  
AM 7.30 TRWY ZOOM

<b>YN BRESENNOL:</b> Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, G Parry, S Jones, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, G Owen (Clerc),	
<b>YMDDIHEURIADAU:</b> Cyng J Earnshaw	
<b>1</b>	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
<b>2</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b> – Cyng H N Evans materion cynllunio a 9.1, Cyng S Jones – 9.1
<b>3</b>	<b>DERBYN COFNODION</b> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 13.07.22 a 24.08.22 - Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio.
<b>4</b>	<b>MATERION YN CODI O'R COFNODION</b>
<b>4.1</b>	<b>Lon y Fynwent</b> – Bydd y Clerc yn atgoffa R G Hire i wneud y gwaith
<b>4.2</b>	<b>Grant ar gyfer y maes Chwarae</b> – Trafodwyd sawl opsiwn gan gynnwys Children in Need, Streetworks, Comic Relief. Mae'r Clerc eisoes wedi cysylltu â Hyrwyddwr Cymunedol Asda. Gofynnwyd iddo gysylltu â'r Gymdeithas. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried darparwyr grantiau eraill ar gyfer y cyfarfod nesaf.
<b>4.3</b>	<b>Raffle</b> – Cytunwyd i dynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda
<b>4.4</b>	<b>Gor-yrru Bryngwran</b> – Cytunwyd i dynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda oherwydd bod yr Heddlu yn monitro
<b>4.5</b>	<b>Tap mynwent Salem</b> - Mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â phlymwr. Nid oes dŵr yn mynd i'r fynwent felly nid oes modd gosod tap. Mae'r plymiwr yn mynd i osod landeri newydd ar y garages fel bod dŵr glaw yn gallu rhedeg i mewn i gasgen ddŵr.
<b>4.6</b>	<b>Diffibriliwr</b> - Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd P Roberts, dywedodd y Cynghorydd N Evans pan fydd y cyhoedd yn cysylltu â'r Gwasanaeth Ambiwlans, maent yn cael y cod i agor diffibrilwyr.
	<b>Llofnod.....Cadeirydd 12.10.22</b>

<b>4.7</b>	<b>Parcio yn y Stryd Fawr</b> – Yn dilyn cyfarfod gydag Arolygydd Priffyrdd, mae'r Cyngor Sir yn mynd i beintio llinellau melyn o'r lorwerth i terfyn y pentref (ochr Bangor), o'r gofeb i'r Rheithordy ac yng ngheg y lon yn Stad Tyn Berllan
<b>4.8</b>	<b>Ffens y cae Chwarae</b> - Mae'r Clerc wedi derbyn cyswllt gan y Cyngor Sir yn dweud fod North Wales Housing wedi eu contractio i wneud y gwaith
<b>4.9</b>	<b>Gor-yrru Engedi</b> - Mae'r Cynghorydd N Evans wedi cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir a'r Heddlu. Mae'r Cyngor Sir wedi bod yno i gynnal arolwg ac mae Gan Bwyll wedi bod yn bresennol. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Heddlu i ofyn iddynt fonitro am 5.30pm ar y Sul pan fydd traffig yn gadael Trac Môn
<b>4.10</b>	<b>Y Gofeb</b> - Mae Mr Brian Jones wedi peintio'r rheiliau a chytunwyd i dalu cost ei ddeunyddiau o £26.87. Cytunwyd hefyd i brynu voucher bwyd am £30 yn yr lorwerth.
<b>5</b>	<b>ADRODDIAD y CADEIRYDD</b> – Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi rhoi ei enw ymlaen ar gyfer y Pwyllgor Safonau. Gofynnodd i bawb ddarllen cylchlythyr y Pwyllgor Safonau. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd mynychu hyfforddiant.
<b>6</b>	<b>GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON</b>
	<b>Cynllunio</b>
<b>6.1</b>	OP/2022/8 Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda holl faterion wedi gadw yndol yn Ty Croes, Bryngwran – dim sylwadau
<b>6.2</b>	FPL/2022/192 Cais llawn i adeiladu Lagoon Slyri newydd yn Bodfeddan Farm, Ty Croes – dim sylwadau
	<b>Priffyrdd</b>
<b>6.3</b>	Ffens y maes Chwarae – gweler 4.8
	<b>Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>6.4</b>	Gofynnwyd i'r Cyngor ail-ethol pencampwr iaith gymunedol. Gwirfoddolodd Cyng S Jones.
	<b>Llofnod.....Cadeirydd 12.10.22</b>

<b>7</b>	<b>GOHEBIAETH YCHWANEGOL</b>
<b>7.1</b>	Cyng H N Evans - Plant mewn perygl yn disgwyl am fws ysgol - Mae'r Cynghorydd N Evans wedi derbyn cwyn nad oes safle bws swyddogol i blant ysgol yn Engedi. Mae wedi codi hyn gyda'r Cyngor Sir ac wedi awgrymu defnyddio'r arhosfan bws mewn cilfan gyfagos. Mae'r cyngor yn cefnogi ei gais. Bydd y Clerc yn cadarnhau hyn i'r Cyngor Sir.
<b>7.2</b>	Eirian Huws - Mae Eirian wedi penderfynu peidio â derbyn rôl cynghorydd cymuned. Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu ati i ddiolch iddi am ei gwaith dros y blynyddoedd
<b>7.3</b>	Kerry Parry AMP Construction - Mae'r Cwmni wedi derbyn caniatâd cynllunio i adeiladu 4 tŷ yn Lôn Ty Hen ac maen nhw'n gofyn i'r cyngor awgrymu dau enw ar gyfer y safle. Cytunwyd ar y ddau ganlynol Gwel Eryri a Stad Ty Hen
<b>7.4</b>	Ceri Thomas - Mae cais wedi dod i law gan Ceri thomas i gael ei chyfethol i'r cyngor. Cytunwyd i dderbyn y cais
<b>8</b>	<b>MATERION ERAILL</b>
<b>8.1</b>	Cynrychiolwyr pwyllgorau - Cytunwyd i symud y mater hwn i'r cyfarfod nesaf. Etholwyd y Cyng Sioned Jones yn Is-Gadeirydd
<b>8.2</b>	Y Fynwent - Gwerthir plotiau ymlaen llaw ar yr amod eu bod yn cael eu agor o fewn 6 wythnos i'w prynu. Nodir bod rhai plotiau heb eu agor. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â'r prynwyr a rhoi 3 mis iddynt agor y plotiau. Os na chânt eu hagor o fewn 3 mis, bydd y plotiau yn cael eu gynnig i rywun arall ac ni fydd ad-daliad.
<b>8.3</b>	Mynwent Llanbeulan - Nodwyd bod y fynwent a'r llwybr yn flêr. Dim ond dwywaith y flwyddyn y maen cael eu dorri. Cytunwyd i gynyddu'r toriadau o 2 i 3 toriad blynyddol yn y cytundeb nesaf.
<b>9</b>	<b>MATERION ARIANNOL</b>
	Cytunwyd i dalu:
<b>9.1</b>	rhodd o £1000 i'r Cylch Meithrin – Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio.
<b>10</b>	<b>MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF</b>
<b>10.1</b>	Dim
	<b>Llofnod.....Cadeirydd 12.10.22</b>